Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gwenffrwd
# Stryd Chwitffordd
# Treffynnon
# Sir y Fflint
# CH8 7NJ

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2011

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol ddynodedig Gymraeg yw Ysgol Gwenffrwd.  Agorwyd yr ysgol ym Mai 1949 a symudodd i'r adeilad presennol yn 1985.  Hwn yw chweched safle'r ysgol.  Daw'r disgyblion i'r ysgol o ddalgylch eang iawn sy'n cynnwys tref Treffynnon a nifer o bentrefi bychan gwledig o ben mynydd Helygain i lawr at lannau Mostyn.

Mae 160 o ddisgyblion llawn amser ar gofrestr yr ysgol ynghyd â 25 o blant meithrin rhan amser. Gwelwyd tyfiant blynyddol yn niferoedd y disgyblion a ddaeth i'r dosbarth meithrin dros y tair blynedd diwethaf.  Saesneg yw'r brif iaith a siaredir yn y cartref gan oddeutu 95% o'r disgyblion ond mae'r ysgol yn sicrhau eu bod yn rhugl yn y Gymraeg erbyn cyrraedd cyfnod allweddol 2.

Derbynnir plant i'r ysgol yn llawn amser ar ddechrau'r flwyddyn yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae gan yr ysgol ddisgyblion o'r ystod allu lawn ac mae eu cyrhaeddiad yn amrywio'n fawr pan ddechreuant yn yr ysgol.  Nid yw'r dalgylch yn freintiedig nac yn ddifreintiedig.   Mae 11.8% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol yn rhad ac am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 20.1%. Mae 33.2% o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21.6%, ac mae dau ohonynt â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Ionawr 2005.  Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd ym Medi 1997.

Yn 2010-2011, y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl yn 2010-2011 ar gyfer Ysgol Gwenffrwd yw £3,130 fesul disgybl, sy'n cymharu gydag uchafswm o £7,635 ac isafswm o £2,660 ar gyfer ysgolion cynradd Sir y Fflint.  Mae cyllideb fesul disgybl yr ysgol yn rhif 38 allan o'r 74 ysgol gynradd yn Sir y Fflint pan restrir hwy yn ôl cyfanswm, gan gychwyn â'r uchaf.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da neu well yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2;
- bod yr ysgol yn darparu ystod eang a chytbwys o brofiadau ysgogol i'r holl ddisgyblion sy'n ymateb yn llawn i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol;
- bod yr addysgu'n gyson dda gyda rhai gwersi yn dangos rhagoriaeth; a
- bod ymddygiad y plant yn arbennig ar draws yr ysgol ac mae eu hagweddau yn adlewyrchu eu cyfranogiad llawn mewn dysgu.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod arweiniad y pennaeth a'r uwch dîm arwain yn dda ac maent wedi sefydlu diwylliant sy'n hybu gwelliant;
- bod trefniadau hunanarfarnu yn gryfder yn yr ysgol;
- mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth ymateb i argymhellion yr arolygiad diwethaf;  a
- bod gan y corff llywodraethol wybodaeth gynhwysfawr am berfformiad yr ysgol mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill tebyg.

## Argymhellion

Er mwyn gwella mae angen i'r ysgol:

A1 barhau i wella ansawdd ysgrifennu disgyblion cyfnod allweddol 2; a
A2 mireinio gweithdrefnau'r ysgol o ran ymateb i anghenion disgyblion mwy abl a thalentog

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da neu well yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Mae safonau a'r cynnydd a wna'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym medrau allweddol siarad a darllen yn dda. Mae eu medrau gwrando a'u gallu i ganolbwyntio yn dda iawn ym mhob dosbarth. Mae safon gwaith ysgrifennu'r mwyafrif o'r disgyblion yn gyffredinol dda ac mae cynnydd amlwg yn ansawdd ysgrifennu'r disgyblion hŷn eleni.

Mae safonau yn y Gymraeg y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda ac mewn nifer o achosion yn dda iawn. Maent yn datblygu yn gyflym i fod yn siaradwyr hyderus ac wrth iddynt symud o un flwyddyn i'r llall mae eu gallu i ddefnyddio'r iaith mewn gwahanol gyd-destunau yn datblygu yn dda. Yn ogystal, mae eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr i gasglu a dehongli gwybodaeth yn datblygu'n effeithiol.

Mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg, mae cyrhaeddiad o ran y dangosydd pwnc craidd (DPC – y perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol) ar gyfer cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 wedi bod yn gyffredinol dda dros y tair blynedd diwethaf. Yng nghyfnod allweddol 1, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r DPC wedi bod yn uwch na chyfran y teulu o ysgolion dros y tair blynedd diwethaf. Yn y Gymraeg mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 2 yn dangos tuedd debyg. Fodd bynnag, mae'r ganran yn cyrraedd lefel 3 neu uwch yn is na'r teulu dros yr un cyfnod. Mewn mathemateg a gwyddoniaeth mae'r ganran sy'n cyrraedd lefel 3 yn amrywio o ran tuedd ac mewn cymhariaeth â'r teulu. Mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill o gefndir tebyg o ran cyfran disgyblion â hawl i ginio am ddim, mae perfformiad yr ysgol wedi amrywio ar draws y chwarteri heb unrhyw duedd amlwg. Yng nghyfnod allweddol 2 roedd tuedd benodol o welliant i'w gweld mewn perthynas â'r DPC a'r pynciau craidd rhwng 2007 a 2009. Roedd perfformiad yr ysgol yn uwch na pherfformiad y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol dros y cyfnod yma. Yn 2010, roedd canlyniadau'r ysgol yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. Gwelwyd tuedd debyg yn nifer y disgyblion yn cyrraedd lefel 5 neu uwch ar draws y pynciau craidd ac ym mherfformiad yr ysgol mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg o ran cyfran disgyblion â hawl i ginio am ddim. Fodd bynnag, er bod y data yn nodi bod safonau'r ysgol wedi disgyn yn 2010, mae'r dystiolaeth gyd-destunol yn dangos bod y disgyblion wedi cyflawni yn dda.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u gallu. Nid oes patrwm arwyddocaol yn amlygu ym mherfformiad bechgyn a merched.

Mae medrau meddwl y rhan fwyaf o'r disgyblion a'u gallu i weithio'n annibynnol yn datblygu'n arbennig o dda. Ar draws yr ysgol mae disgyblion yn gwneud penderfyniadau synhwyrol ac yn gwybod beth i wneud wrth wynebu heriau newydd.

Gwyddant sut a ble i ganfod atebion wrth ddatrys problemau. Mae’r agwedd hon yn elfen ragorol.

### Lles: Rhagorol

Mae gan bob disgybl ddealltwriaeth dda iawn o sut i gadw’n iach, a pha fwydydd sy’n llesol ac maent yn gwybod bod ymarfer corff yn bwysig. Mae safonau ar draws yr ysgol mewn addysg gorfforol yn gryfder nodedig ac mae ymrwymiad mwyafrif y disgyblion i weithgareddau megis “Deffrwch, Dawnsiwch”, timau chwaraeon a darpariaeth allgyrsiol ym maes chwaraeon a ffitrwydd yn uchel. Mae’r disgyblion yn mwynhau dysgu ac mae cyfradd presenoldeb yr ysgol dros 95% ers tair blynedd. Mae’r ysgol yn gyson yn y chwarter uchaf o ran presenoldeb o gymharu ag ysgolion tebyg dros yr un cyfnod. Mae ymddygiad y plant yn arbennig ar draws yr ysgol ac mae eu hagwedd yn adlewyrchu eu cyfranogiad llawn mewn dysgu. Mae’r berthynas dda iawn sydd rhyngddynt a’i gilydd, ac ag oedolion, yn cyfrannu’n effeithiol i ansawdd eu gwaith. Mae pob plentyn yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod sut i gael cymorth os nad ydynt yn hapus.

Mae’r cyngor ysgol yn weithgar iawn ac yn cyfarfod yn rheolaidd. Mae yn cynrychioli’r holl ddisgyblion yn effeithiol ac yn sicrhau fod barn disgyblion yn dylanwadu ar benderfyniadau. Mae hefyd yn cyfrannu at y gymdeithas ehangach drwy weithio ag elusennau lleol. Mae barn a safbwyntiau aelodau’r Pwyllgor Eco yn cyfrannu’n effeithiol at ddatblygu a monitro cynlluniau gweithredu ym maes ail-gylchu a gwella’r amgylchedd o fewn yr ysgol ac yn y gymuned.

Mae mwyafrif y disgyblion yn hyderus yn y medrau y maent eu hangen i wella eu dysgu. Mae pob disgybl yn dangos parch at ei gilydd. Maent yn uniaethu yn dda gyda’u cyd-ddisgyblion a gyda’r rhai sydd yn eu dysgu. Mae eu medrau cydweithio yn dda iawn ar draws yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn datblygu yn ddysgwr annibynnol. Maent yn hyderus wrth drafod eu gwaith a’u cynnydd. Mae’r agwedd yma yn gryfder yn yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

### Profiadau dysgu: Da

Mae’r ysgol yn paratoi ystod eang a chytbwys o brofiadau ysgogol i’r holl ddisgyblion sy’n ymateb yn llawn i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) wedi ei chynllunio’n briodol. Cydweithia’r staff yn effeithiol i gynllunio rhaglenni hyblyg ac ymatebol, er enghraifft wrth feithrin medrau darllen cynnar y plant ieuengaf.

Mae dosbarthiadau’r Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn darparu profiadau cyfoethog, uniongyrchol sydd yn effeithio’n gadarnhaol iawn ar fedrau personol a chymdeithasol y disgyblion. Mae’r ddarpariaeth ar draws yr ysgol yn arbennig o effeithiol wrth ddatblygu medrau meddwl a gallu’r disgyblion i ddysgu’n annibynnol. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion penodol ar draws yr ysgol yn dda.

Mae'r ymweliadau diddorol a niferus, ynghyd â chyfraniad ymwelwyr megis arlunwyr preswyl, yn ennyn diddordeb y disgyblion. Maent hefyd yn dylanwadu'n dda ar y safonau cyflawniad. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn effeithiol iawn ar draws yr ysgol. Mae'r elfen hon yn ganolog i holl waith a bywyd yr ysgol. O ganlyniad, mae gwybodaeth ac ymwybyddiaeth y disgyblion o'u hetifeddiaeth Gymreig yn datblygu'n dda iawn.

Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth i agweddau cynaliadwyedd a'r amgylchfyd ac mae wedi derbyn achrediad y Faner Werdd. Darperir cyfleoedd amrywiol i'r disgyblion ddatblygu eu deall drwy weithgareddau sy'n hybu ail-gylchu a gwella amgylchedd yr ysgol.

Mae'r disgyblion yn deall pwysigrwydd parchu aml-ddiwylliannau. Darperir cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd eang drwy'r cyfnodau addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh), gwersi addysg grefyddol a daearyddiaeth. Mae'r ysgol yn flaenllaw mewn ymgyrchoedd Masnach Deg lleol a bu trefnu marchnad ffermwyr yn broject buddiol i hybu dealltwriaeth o'r maes. Mae'r ysgol hefyd yn cyfrannu'n rheolaidd at elusennau rhyngwladol megis trychineb diweddar Haiti.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu'n gyson dda gyda rhai gwersi yn dangos rhagoriaeth. Mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel ac maent yn defnyddio ystod priodol o ddulliau i ysgogi pob disgybl i gyrraedd ei botensial. Mae'r sesiynau a addysgir wedi eu cynllunio'n drwyadl ac mae cyfraniad staff cynorthwyol at ansawdd dysgu'r disgyblion yn sylweddol. Defnyddir adnoddau'r ysgol yn effeithiol i gefnogi'r dysgu. Cynllunnir yn dda ar gyfer anghenion ychwanegol disgyblion. Mae awyrgylch dysgu cadarnhaol ym mhob gwers ac fe reolir ymddygiad disgyblion yn effeithiol.

Defnyddia athrawon amrediad o weithdrefnau sydd yn sicrhau fod y disgyblion yn gwybod pa mor dda maent yn ei wneud a'r hyn mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer marcio a darparu adborth llafar yn cyfrannu'n sylweddol at y nod yma. Mae'r gweithdrefnau hefyd yn darparu cyfleoedd effeithiol i'r disgyblion arfarnu eu gwaith a gwaith eu cyd-ddisgyblion drwy'r ysgol. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o'u targedau gwella mewn iaith a rhifedd ac yn ymroi i'w cyrraedd.

Mae'r ysgol yn cofnodi cynnydd mewn safonau a lles disgyblion yn glir a thrwyadl ar draws yr ysgol. Caiff y wybodaeth ei defnyddio'n effeithiol i lywio'r cynllunio. Mae'r trefniadau yma yn sicrhau adnabyddiaeth dda o anghenion yr holl blant. Maent hefyd yn gymorth i adrodd yn effeithiol i rieni am gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn flaengar yn hybu holl agweddau cadw'n iach a diogel. Mae ganddi ystod eang o bolisïau a threfniadau priodol i hyrwyddo byw yn iach a lles disgyblion. Mae'r ddarpariaeth o fewn yr ysgol ac yn allgyrsiol, megis y clwb "Heartstart", o ran datblygu agweddau iach a ffitrwydd yn elfennau rhagorol ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar safonau. Mae'r ysgol yn arwain Gwyl Gymnasteg flynyddol i ddathlu

Gwyl Ddewi o fewn ei chlwstwr. Mae barn rhieni a disgyblion yn cadarnhau fod gan yr ysgol drefniadau effeithiol iawn ar gyfer sicrhau diogelwch a lles emosiynol a chorfforol y disgyblion. Mae'r trefniadau hefyd yn sicrhau fod datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn briodol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o wybodaeth i'r disgyblion a'u rhieni. Mae hyn yn cynnwys cynhyrchu pamffledi i hybu cyfraniad rhieni at agweddau o ddarllen a gwaith rhif ac i wella eu dealltwriaeth o ddyslecsia. Pan fo'n briodol, mae'r ysgol yn annog y disgyblion a'u rhieni i dderbyn arweiniad gan asiantaethau allanol, arbenigol. Er enghraifft, bu achosion diweddar o gyd-weithio ag adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol o fudd i blant o'r ysgol a'u teuluoedd.

Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu'r disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau a systemau trwyadl ar gyfer adnabod disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r profiadau dysgu a ddarperir iddynt yn y brif ffrwd, ac mewn grwpiau arbennig, yn eu cefnogi'n effeithiol i gyflawni safonau priodol. Defnyddir ystod dda o adnoddau addas sy'n gwella ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r cymorth yn cael ei gydlynu'n effeithiol oddifewn i'r ysgol ac mae cysylltiadau da gydag asiantaethau allanol, lle mae'n briodol. Defnyddir gweithdrefnau tracio yn dda i dargedu cymorth ychwanegol a monitro ei effaith. Mae'r ysgol yn cynnal adolygiadau cynnydd rheolaidd ac yn ymgynghori'n dda â rhieni a gofalwyr.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos yr ysgol yn un croesawgar ble mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a chyfforddus. Mae'r staff yn cydweithio yn llwyddiannus i hyrwyddo agweddau cynhwysol. Mae trefniadau'r ysgol hefyd yn rhoi cyfle cyfartal i bob disgybl fanteisio ar y cyfleoedd dysgu a gynigir drwy'r cwricwlwm a'r gweithgareddau allgyrsiol. Gwerthfawrogir cefndiroedd amrywiol disgyblion ac fe roddir sylw dyladwy i ddatblygu eu dealltwriaeth o hawliau dynol.

Manteisir yn llawn ar yr adeilad sylweddol a'r tir eang o'i gwmpas. Mae'r dosbarthiadau o ansawdd da ac yn creu naws ysgogol. Datblygwyd ardaloedd gwerthfawr ac fe'u defnyddir yn effeithiol i hybu chwilfrydedd disgyblion a chyfoethogi y dysgu. Mae arddangosfeydd o safon uchel o gwmpas yr ysgol sy'n adlewyrchu ansawdd gwaith y disgyblion yn yr ysgol ac yn eu cymuned.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweiniad y pennaeth a'r uwch dim arwain yn dda ac maent wedi sefydlu diwylliant sy'n hybu gwelliant. Mae'r cyfarfodydd staff rheolaidd yn canolbwyntio ar wella'r ysgol ac yn sicrhau fod strategaethau a chynlluniau yn cael eu deall a'u datblygu'n effeithiol.

Mae gan arweinwyr a rheolwyr ddisgwyliadau uchel. Mae trefniadau rheoli perfformiad effeithiol yn gymorth i gyfleu y rhain i bob aelod o staff. Mae'r staff yn

gweithio at dargedau heriol sy'n cwmpasu gwelliannau ysgol-gyfan a gofynion datblygu unigol. Mae'r cyfrifoldeb am arwain prosiectau a chynlluniau gwella wedi eu datganoli'n effeithiol i staff. Mae hyn yn hybu cymhelliant ac yn adeiladu cynhwysiant ar gyfer gwelliant parhaus.

Mae corff llywodraethol yr ysgol yn deall ei rôl yn dda. Mae ganddo wybodaeth gynhwysfawr am berfformiad yr ysgol mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill tebyg ac mae'n dehongli'r data yn effeithiol. Mae cyflwyniadau rheolaidd gan staff yn sicrhau fod y corff yn ymwybodol o ddatblygiadau cwricwlaidd a threfniadol a chaiff hyn ei ategu gan ymweliadau gan lywodraethwyr â'r ysgol. Mae'r corff yn rhoi arweiniad addas ynglŷn â chyfeiriad ac yn gweithio'n effeithiol gyda'r uwch dîm arwain i wella ansawdd. Mae wedi mabwysiadu trefniadau cwyno addas ac yn sicrhau fod y rhain yn wybyddus i rieni a gofalwyr.

Cafodd y Cyfnod Sylfaen ei sefydlu yn llwyddiannus iawn ac mae trefniadau priodol eisoes yn eu lle ar gyfer ymestyn y trefniadau'n llawn i flwyddyn dau. Mae elfennau o'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion megis cymunedau dysgu proffesiynol eisoes yn effeithiol o fewn trefniadau'r ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ysgol yn adnabod ei hun yn dda ac mae ymrwymiad cryf i hybu gwelliant ar draws yr ysgol. Caiff data cymharol ei ddadansoddi'n dda iawn i bwrpas monitro perfformiad ochr yn ochr â gwaith monitro ac arfarnu effeithiol y cydlynwyr pwnc. Rhoddir ystyriaeth lawn i arfarniadau parhaus o les disgyblion. Mae'r trefniadau hefyd yn rhoi ystyriaeth briodol i farn disgyblion a rhieni, yn ogystal ag argymhellion swyddogion gwasanaeth addysg yr awdurdod lleol, ac yn sicrhau bod blaenoriaethau priodol ar gyfer gwella yn cael eu hadnabod. Er enghraifft mae agweddau o ysgrifennu a chyrhaeddiad disgyblion ar lefelau uwch wedi eu hadnabod fel blaenoriaethau yn y cynllun gwella ysgol cyfredol. Mae'r trefniadau hunanarfarnu yn gryfder yn yr ysgol.

Mae blaenoriaethau'r hunanarfarnu yn cysylltu'n glir â chynlluniau gwella'r ysgol. Mae strategaethau i gyfarfod â'r gwelliannau sydd eu hangen yn cael eu hadnabod. Mae'r rhain yn cynnwys ystod o weithgareddau, gyda chyfrifoldeb arweinyddiaeth am eu cydlynu yn cael ei roi i aelodau staff yn ogystal â dangosyddion llwyddiant, graddfeydd amser penodol a chofnod o'r adnoddau a ddyrannwyd. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth ymateb i argymhellion yr arolygiad diwethaf.

Mae cymunedau dysgu proffesiynol yn rhan annatod o drefniadau cynllunio a hunanarfarnu'r ysgol. Maent yn cyfrannu'n effeithiol at adnabod, datblygu a hybu arfer da mewn dysgu ac asesu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu ystod dda o bartneriaethau ag ysgolion eraill, sefydliadau addysg bellach ac uwch a grwpiau cymunedol lleol.

Mae cysylltiadau gwaith effeithiol yn bodoli â gwasanaethau'r awdurdod lleol gan gynnwys y gwasanaeth lles addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn

sicrhau bod plant a theuluoedd yn elwa o brosiectau yn ymwneud â phresenoldeb a gofal yn y cartref. Cydlynodd yr ysgol bartneriaeth effeithiol gydag ystod o bartneriaid i leihau effaith fandaliaeth ar y safle a datblygu ansawdd y ddarpariaeth allanol. Mae hefyd yn cydweithio'n agos â dwy brifysgol a sefydliadau addysg bellach lleol i hyfforddi athrawon a staff cynorthwyol.

Mae'r cyswllt parhaus â rhieni yn cynnwys canfod eu barn ar faterion yn ymwneud â lles a safonau. Mae hyn yn gymorth i gynnal y bartneriaeth effeithiol a chefnogol sy'n bodoli â hwy. Mae ymwneud rhieni â chynlluniau megis hybu darllen yn cael effaith gadarnhaol ar safonau. Mae'r bartneriaeth hefyd yn elwa o'r sesiynau codi ymwybyddiaeth rheolaidd ar gyfer rhieni ar ystod o faterion addysgol a lles. Mae'r ysgol yn elwa o gefnogaeth cymdeithas rieni athrawon weithgar.

Mae'r ysgol yn cyd-gynllunio ag ystod o bartneriaid i gyflwyno rhaglenni sy'n gwella deillianau a lles disgyblion. Er enghraifft, arweiniodd gwaith gyda swyddog sgiliau at brojectau i godi safonau mewn ysgrifennu yn y Gymraeg ac mae aelodaeth yr ysgol yn y Brifysgol Plant yn miniogi a gwobrwyo ei gweithgareddau allgyrsiol. Mae gweithgareddau a gyd-gynlluniwyd â'r Cyngor Chwaraeon wedi cyfrannu at safonau uchel mewn addysg gorfforol. Elwodd yr ysgol hefyd o nifer o brosiectau a gyd-gynlluniwyd gyda'r Cyngor Celfyddydau.

Cynhelir cyfarfodydd misol sy'n hyrwyddo trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Sefydlwyd partneriaeth â rhieni, Mudiad Ysgolion Meithrin a Dechrau'n Deg sydd yn sicrhau trefniadau trosglwyddo effeithiol iawn i ddosbarthiadau meithrin yr ysgol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi ei staffio yn briodol ac yn gwneud defnydd effeithiol o amser, arbenigedd a phrofiad aelodau staff. Gwneir defnydd da o gymorthyddion dysgu ar draws yr ysgol gan gynnwys yn y Cyfnod Sylfaen ac yn cynorthwyo disgyblion ag ADY. Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser cynllunio paratoi ac asesu (CPA) ac mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol yn ymwneud â baich gwaith. Yn gyffredinol, mae gan yr ysgol gyflenwad da o adnoddau sy'n cael eu rheoli'n briodol.

Mae trefniadau adnabod anghenion gwella'r ysgol a datblygu cynlluniau i wella yn galluogi arweinwyr a rheolwyr i glustnodi adnoddau ariannol yn effeithiol iawn. Mae gweithdrefnau monitro'r gyllideb yn effeithiol ac yn gymorth i sicrhau fod yr holl adnoddau sydd ar gael i'r ysgol yn cael eu clustnodi'n gost-effeithiol.

Mae deilliannau ar gyfer disgyblion yn dda. Nid oes unrhyw safonau anfoddhaol nac agweddau annigonol ar y ddarpariaeth. Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian o ran y defnydd a wneir o'r gyllideb a ddyrennir iddi.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Dychwelwyd 78 o'r holiaduron, a bron ym mhob un ohonynt, nododd rhieni eu bod naill ai'r fodlon neu'n fodlon iawn â'r ysgol yn gyffredinol. Dywed rhieni fod eu plant yn teimlo'n ddiogel ynddi. Mae bron pob un hefyd yn credu bod ymddygiad y disgyblion yn dda, bod y disgyblion yn cael eu parchu a'u trin yn deg a'u bod yn datblygu i fod yn fwy aeddfed ac yn barod i ysgwyddo cyfrifoldebau. Mae pob rhiant yn teimlo bod yr addysgu yn y dosbarthiadau ac ymddygiad y disgyblion yn dda a bron pob un yn teimlo fod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. Mae pob rhiant hefyd yn dweud fod eu plant yn hoffi'r ysgol. Fodd bynnag, mae ychydig iawn o'r rhieni yn teimlo nad ydynt yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant ac ychydig yn teimlo nad ydynt yn deall trefniadau'r ysgol ar gyfer delio a chwynion. Mae bron pob rhiant o'r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda neu yn dda iawn.

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Llenwyd yr holiadur gan y rhan fwyaf o ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 2, a siaradodd y tîm â disgyblion ar draws yr ysgol yn ystod yr arolygiad. Mae pob un yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod yr ysgol yn ymdrin â bwlio'n dda. Mae pob disgybl yn gwybod pwy y gallant siarad â nhw os ydynt yn poeni neu os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd. Mae pob un ohonynt hefyd o'r farn bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac mae bron pob un yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Mae ychydig o'r disgyblion yn teimlo nad yw eu gwaith cartref yn eu cynorthwyo i ddeall neu wella eu gwaith ysgol.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Iwan Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Clive Phillips | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Alun Rees | Arolygydd Cymheiriaid |
| Iola Owen | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**
Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |